# Crynodeb o'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc ynghych y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) arfaethedig

Gorffennaf 2023

Sam Rowlands AS

## Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 3**

Diben ymgynghori â phlant a phobl ifanc ........ 3

**2. Y prif negeseuon ........ 5**

Ymatebion i'r arolwg ........ 5

Cyfarfodydd â grwpiau o ddisgyblion ........ 6

**3. Pwy a ymatebodd i'r arolwg? ........ 8**

**4. Y prif egwyddorion sy'n sail i'r cynnig (Cwestiynau 4 ac 8).. 10**

Ar raddfa o 1 i 10, pa mor bwysig yw hi i bob plentyn gael cyfle i wneud ymweliad addysg awyr agored dros nos am ddim rywbryd? (Cwestiwn 4) ........ 10

A ddylai fod yn gyfraith y gall plant fynd ar o leiaf un ymweliad addysg awyr agored dros nos? (C8) ........ 14

Cyfarfodydd â grwpiau o ddisgyblion ........ 15

**5. Y prif bethau da (C1) ........ 16**

Beth yw'r prif bethau da i blant am gael mynd ar ymweliad addysg awyr agored dros nos? ........ 16

Cyfarfodydd â grwpiau o ddisgyblion ........ 19

**6. Y prif rwystrau ar hyn o bryd (C2) ....... 22**

Beth sy'n rhwystro plant rhag cymryd rhan mewn ymweliad addysg awyr agored dros nos? ....... 22

Cyfarfodydd â grwpiau o ddisgyblion ....... 24

**7. Yr oedran gorau i fynd (C5) ....... 28**

Beth yw'r oedran neu'r flwyddyn orau i fynd? ....... 28

Cyfarfodydd â grwpiau o ddisgyblion ....... 32

Crynodeb o'r ymatebion ar gyfer yr ystod oedran mwyaf addas ....... 32

**8. Yr hyd gorau ar gyfer taith (C6) ....... 34**

Am ba hyd ddylai'r daith fod? ....... 34

Cyfarfodydd a gynhaliwyd â grwpiau o ddisgyblion ....... 36

Crynodeb o'r ymatebion ar gyfer yr hyd gorau ar gyfer taith ....... 36

**9. Y grwpiau penodol o blant a fyddai'n elwa (C7) ....... 37**

Pa grwpiau o blant fyddai'n elwa fwyaf o gymryd rhan mewn ymweliad addysg awyr agored dros nos, a pham? ....... 37

**10. Sicrhau bod plant yn cael yr amser gorau posibl (C3) ....... 40**

Sut gall pobl sicrhau bod plant yn cael yr amser gorau posibl ar ymweliadau addysg awyr agored dros nos? ....... 40

**11. Sylwadau ychwanegol ....... 43**

O blaid ac yn erbyn ....... 43

Materion a nodwyd ....... 43

Cyfarfodydd â grwpiau o ddisgyblion ....... 44

A fyddai unrhyw beth yn eich poeni am fynychu taith addysg awyr agored dros nos? ....... 44

Ydych chi wedi bod ar daith awyr agored dros nos? Os felly, beth oedd yn arbennig o dda am hyn? A beth allai fod wedi bod yn well? ....... 46

# 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o’r ymateb i’r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc ynghylch Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) arfaethedig Sam Rowlands AS (y Bil), a gynhaliwyd rhwng 10 Mai a 23 Mehefin 2023. Roedd yr ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at blant a phobl ifanc, ac fe’i cynhaliwyd yn dilyn yr ymgynghoriad cyffredinol rhwng 31 Ionawr a 17 Mawrth 2023. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyffredinol ym mis Gorffennaf 2023.

Ni fwriedir i'r ddogfen hon fod yn gofnod hollgynhwysfawr o bob sylw a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc. Mae’n crynhoi’r materion allweddol a godwyd sy’n canolbwyntio’n uniongyrchol ar amcanion polisi y Bil arfaethedig. Gellir gweld sylwadau llawn yr ymatebwyr yn eu hymatebion i'r arolwg.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn bennaf ar ffurf arolwg ar-lein, ynghyd â gwaith ymgynghori ategol wedi’i dargedu gyda phlant a sefydliadau penodol. Rhannwyd yr ymgynghoriad hefyd â Chynghorwyr Addysg Awyr Agored yng ngwahanol ardaloedd awdurdod lleol Cymru, a gafodd eu hannog i’w rannu ag ysgolion yn eu hardaloedd.

Cafwyd **176 o ymatebion** gan **144 o blant a phobl ifanc, a 32 o oedolion neu sefydliadau**. Mae rhagor o fanylion am y rhai a ymatebodd yn Adran 3 o’r crynodeb hwn. Mae rhestr fanwl o gwestiynau’r arolwg yn Atodiad A.

Ynghyd â hynny, **cynhaliodd tîm Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Senedd bum cyfarfod â grwpiau o blant ysgol** yn ystod ymweliadau â'r Senedd a oedd wedi’u trefnu eisoes. Roedd tair o'r ysgolion hyn yn ysgolion uwchradd ac roedd dwy yn ysgolion cynradd (tra bod bron pob un o'r plant oedran ysgol a ymatebodd i'r arolwg o dan 13 oed).

Mae crynodebau o ganlyniadau'r cyfarfodydd â'r grwpiau ysgol yn yr adrannau perthnasol o’r papur hwn.

## Diben ymgynghori â phlant a phobl ifanc

Mae gan blant hawl o dan Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i fynegi eu barn, eu teimladau a'u dymuniadau ynghylch pob mater sy'n effeithio arnynt, ac i’w barn gael ei hystyried a'i chymryd o ddifrif.

Mae’r Bil arfaethedig yn anelu at greu budd i blant a phobl ifanc yn bennaf ac felly mae'n bwysig iawn cael gwybod eu barn.

Cafodd y deunyddiau ymgynghori eu cynhyrchu gan academydd allanol sy'n arbenigo mewn astudiaethau plentyndod a methodolegau cyfranogiad plant. Cafodd y deunyddiau hyn eu datblygu gyda phlant a phobl ifanc ac maent yn cynnwys:

- arolwg ar-lein;
- dogfen ymgynghori sy'n cynnwys y cwestiynau a ofynnwyd yn yr arolwg hwnnw;
- strip cartŵn yn esbonio diben yr ymgynghoriad; a
- gêm ar thema 'nadroedd ac ysgolion' i helpu oedolion sy'n gweithio gyda phlant i gasglu ymatebion.

Mae canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn wedi llywio’r Bil Addysg Awyr Agored Breswyl Drafft (Cymru) a gyhoeddwyd ar 14 Gorffennaf 2023. Byddant yn llywio trafodaethau pellach wrth i'r Bil gael ei gwblhau cyn iddo gael ei gyflwyno i broses ddeddfwriaethol y Senedd ym mis Tachwedd 2023.

Bydd yr ymgynghoriad hefyd yn llywio'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a fydd yn rhan o'r ddogfennaeth a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Bil.

# 2. Y prif negeseuon

## Ymatebion i'r arolwg

Mynegwyd **lefel sylweddol iawn o gefnogaeth** yn yr ymgynghoriad i blant a phobl ifanc **i'r egwyddorion** sy’n sail i'r cynnig. (Gweler adran 4).

- Wrth ateb cwestiwn am ba mor bwysig yw hi, ar raddfa o 1 i 10, i bob plentyn gael cyfle i wneud ymweliad addysg awyr agored dros nos am ddim ar ryw adeg, rhoddodd 90% o’r ymatebwyr sgôr o saith neu fwy allan o 10. Rhoddodd 42% o'r ymatebwyr sgôr o 10 allan o 10.
- O blith y rhai a oedd o dan 13 oed, rhoddodd 89% o’r ymatebwyr sgôr o saith neu fwy allan o 10 wrth ateb cwestiwn am ba mor bwysig yw hi i bob plentyn gael cyfle i wneud ymweliad addysg awyr agored dros nos am ddim ar ryw adeg. Rhoddodd 34% o'r ymatebwyr sgôr o 10 allan o 10.
- Roedd mwyafrif helaeth (75%) o'r ymatebwyr yn credu y dylai fod deddfwriaeth i sicrhau y gall plant fynd ar o leiaf un ymweliad addysg awyr agored dros nos am ddim. Dywedodd 18% ‘efallai’, a dywedodd 7% ‘na’.
- Roedd mwyafrif helaeth (74%) o'r ymatebwyr o dan 13 oed yn credu y dylai fod deddfwriaeth i sicrhau y gall plant fynd ar o leiaf un ymweliad addysg awyr agored dros nos am ddim. Dywedodd 18% ‘efallai’ a dywedodd 8% ‘na’.

Y **pethau da a nodwyd amlaf** am gael addysg awyr agored dros nos oedd y cyfle i greu perthynas glos â ffrindiau a chael hwyl; ennill mwy o annibyniaeth a’r profiad o fod oddi cartref/i ffwrdd o’u rhieni; dysgu sgiliau newydd; dysgu am yr amgylchedd a natur; a threulio amser yn yr awyr iach, wrth anturio yn yr awyr agored. (Gweler adran 5).

Y **rhwystr a nodwyd amlaf** i blant a phobl ifanc gael mynediad i addysg awyr agored dros nos ar hyn o bryd oedd y gost. Roedd teimlo’n bryderus ymhlith plant a rhieni hefyd yn uchel iawn ar y rhestr, ac yna'r posibilrwydd na fyddai ffrindiau'n mynd. (Gweler adran 6).

Nododd **ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr mai Blwyddyn 5 neu Flwyddyn 6 fyddai'r oedran gorau** i gymryd rhan mewn addysg awyr agored dros nos, tra nododd 70% o'r ymatebwyr ystod ychydig yn ehangach o oedrannau rhwng

Blwyddyn 4 a Blwyddyn 8. Fodd bynnag, **nid oedd consensws mawr ar gyfer un grŵp blwyddyn neu oedran**. (Gweler adran 7).

Yn yr un modd, roedd **barn gymysg am ba hyd y dylai ymweliad fod**. Nododd 42% gyfnodau o lai nag un wythnos ysgol, tra bos 34% yn ffafrio cyfnodau o wythnos ysgol neu fwy. Rhoddodd 16% atebion a rhywle rhwng y ddau gyfnod hyn o amser. (Gweler adran 8).

Wrth ateb cwestiwn am **ba grwpiau o blant a fyddai'n elwa fwyaf**, nododd dros hanner yr ymatebwyr y byddai pob plentyn yn elwa heb nodi rhagor o fanylion. Nododd 15% a 13% o'r ymatebwyr, yn y drefn honno, y byddai plant o gartrefi incwm isel a phlant ag anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn elwa. (Gweler adran 9).

Wrth ateb cwestiwn am sut y gall oedolion sy'n ymwneud â threfnu addysg awyr agored dros nos **sicrhau bod plant yn cael yr amser gorau posibl ar ymweliadau**, dywedodd tua chwarter o'r ymatebwyr y dylent sicrhau bod y plant yn cael hwyl ac yn cael gwneud gweithgareddau da. Y peth nesaf a nodwyd oedd rhoi sylw dyledus i emosiynau a phryderon plant, yna sicrhau bod darpariaeth drefnus o safon ar gael, cadw'r plant yn ddiogel, a rhoi rhywfaint o ryddid a seibiant iddynt rhag 'llymder' yr ysgol. (Gweler adran 10).

Gwnaeth **79 o'r 176 o ymatebwyr sylwadau ychwanegol**. Nodwyd materion sy'n bwysig i blant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai a restrir isod. (Gweler adran 11).

- Cysuron ac amodau tra byddant i ffwrdd;
- Goblygiadau ariannol a fforddiadwyedd;
- Ehangu cwmpas ymweliadau cymwys (y tu hwnt i addysg awyr agored i gynnwys teithiau tramor a theithiau i ddinasoedd);
- Sicrhau cynhwysiant;
- Hawliau plant i wrthod y cyfle i fynd ar ymweliadau neu adael yn gynnar os na fyddant yn hapus.

## Cyfarfodydd â grwpiau o ddisgyblion

Cynhaliodd tîm Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Senedd bum cyfarfod i ymgynghori â grwpiau o ddisgyblion ysgol ac roedd y canlyniadau'n cyd-fynd yn gyffredinol â chanfyddiadau'r arolwg.

**Un maes lle gwelwyd gwahaniaeth amlwg oedd yr atebion i'r cwestiwn ynghylch yr oedran gorau i gymryd rhan** mewn addysg awyr agored dros nos. Roedd y tri grŵp ysgol uwchradd a ddaeth i'r Senedd yn tueddu i ddweud mai oedran ysgol uwchradd fyddai orau (Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9), tra bod atebion y ddau grŵp ysgol gynradd yn agosach at ganlyniadau'r arolwg (tua diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd). (Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr i'r arolwg yn 13 oed ac iau.)

# 3. Pwy a ymatebodd i’r arolwg?

Roedd **176 o ymatebion**. Ymatebodd 162 mewn rhinwedd bersonol a 14 mewn rhinwedd broffesiynol.

O'r **162 o ymatebion mewn rhinwedd bersonol**, **roedd 142 ohonynt gan blant o dan 13 oed,** roedd dau ohonynt gan blant rhwng 13 a 17 oed ac roedd 18 ohonynt gan bobl 18 oed a hŷn.

O'r 18 o ymatebwyr a oedd yn 18 oed a hŷn, nododd dau ohonynt eu bod yn bobl ifanc. O’r 16 sy’n weddill, roedd 13 ohonynt yn ymateb fel rhiant/gofalwr a thri ohonynt yn ymateb o safbwynt arall.

O blith y **14 o ymatebion a roddwyd gan bobl mewn rhinwedd broffesiynol**, roedd wyth yn ymateb ar ran sefydliad a chwech yn ymateb fel unigolion.


O blith yr wyth a ymatebodd ar ran sefydliad, roedd chwech yn ddarparwyr addysg awyr agored a dau nad oeddent yn ddarparwyr o’r fath.

O blith y chwech a ymatebodd mewn rhinwedd broffesiynol ond fel unigolyn, roedd pedwar yn ddarparwyr addysg awyr agored a dau nad oeddent yn ddarparwyr o’r fath.

Felly, o blith y 14 o ymatebion a roddwyd mewn rhinwedd broffesiynol, roedd **10 gan ddarparwyr addysg awyr agored** a phedwar nad oeddent gan ddarparwyr o’r fath.

.

**Pwy a ymatebodd i'r arolwg?**



# 4. Y prif egwyddorion sy’n sail i'r cynnig (Cwestiynau 4 ac 8)


## Ar raddfa o 1 i 10, pa mor bwysig yw hi i bob plentyn gael cyfle i wneud ymweliad addysg awyr agored dros nos am ddim rywbryd? (Cwestiwn 4)

**Pob ymateb i'r arolwg (176)**

Rhoddodd 159 o’r 176 (90%) o’r rhai a ymatebodd i’r arolwg sgôr o saith neu fwy allan o 10 i'r cwestiwn hwn, gyda 74 (42%) yn rhoi sgôr o 10 allan o 10 i bwysigrwydd addysg awyr agored dros nos am ddim.

| Sgôr allan o 10 | Nifer yr ymatebion | Cyfran yr ymatebion | Cyfran gronnol o'r ymatebion |
|---|---|---|---|
| 10 | 74 | 42% | 42% |
| 9 | 28 | 16% | 58% |
| 8 | 37 | 21% | 79% |
| 7 | 20 | 11% | 90% |
| 6 | 3 | 2% | 92% |
| 5 | 8 | 5% | 97% |
| 4 | 2 | 1% | 98% |
| 3 | 0 | 0% | 98% |
| 2 | 0 | 0% | 98% |
| 1 | 1 | 1% | 98% |
| 0 | 3 | 2% | 100% |

**Ar raddfa o 1 i 10, pa mor bwysig yw hi i bob plentyn gael cyfle i wneud ymweliad addysg awyr agored dros nos am ddim rywbryd? (Pob un o'r 176 o ymatebion i'r arolwg)**





Rhoddodd y ddau berson a ymatebodd i'r arolwg a oedd rhwng 13 a 17 oed sgôr o 10 allan o 10. Mae canlyniadau'r 142 o ymatebwyr a oedd o dan 13 oed i'w gweld isod.

**Ymatebion i'r arolwg gan blant a phobl ifanc o dan 13 oed (142 o ymatebion)**

Wrth edrych ar yr ymatebion i'r arolwg gan blant o dan 13 oed (ac felly anwybyddu'r 14 ymateb gan weithwyr proffesiynol, y 18 ymateb gan oedolion a'r ddau ymateb gan bobl ifanc rhwng 13 a 17 oed), atebodd 127 allan o'r 142 a ymatebodd i'r arolwg (89%) saith neu fwy allan o 10. O ran pwysigrwydd addysg awyr agored dros nos am ddim, rhoddodd 48 (34%) sgôr o 10 allan o 10.

| Sgôr allan o 10 | Nifer yr ymatebion | Cyfran yr ymatebion | Cyfran gronnol o'r ymatebion |
|---|---|---|---|
| 10 | 48 | 34% | 34% |
| 9 | 25 | 18% | 51% |
| 8 | 35 | 25% | 76% |
| 7 | 19 | 13% | 89% |
| 6 | 2 | 1% | 91% |
| 5 | 8 | 6% | 96% |
| 4 | 2 | 1% | 98% |
| 3 | 0 | 0% | 98% |
| 2 | 0 | 0% | 98% |
| 1 | 1 | 1% | 99% |
| 0 | 2 | 1% | 100% |


**Ar raddfa o 1 i 10, pa mor bwysig yw hi i bob plentyn gael cyfle i wneud ymweliad addysg awyr agored dros nos am ddim rywbryd? (142 o ymatebion gan ymatebwyr a oedd o dan 13 oed)**



## A ddylai fod yn gyfraith y gall plant fynd ar o leiaf un ymweliad addysg awyr agored dros nos? (C8)

**Pob ymateb i'r arolwg (175)**


- Dylai 132 (75%)
- Efallai 31 (18%)
- Na 12 (7%)




Atebodd y ddau ymatebwr i'r arolwg a oedd rhwng 13 a 17 oed y dylai fod yn gyfraith. Mae canlyniadau'r 142 o ymatebwyr a oedd o dan 13 oed i'w gweld isod.

## Ymatebion i'r arolwg gan blant o dan 13 oed (141)

- Dylai 104 (74%)
- Efallai 26 (18%)
- Na 11 (8%)




## Cyfarfodydd â grwpiau o ddisgyblion

Holwyd dau o'r grwpiau disgyblion ynghylch eu hymateb i'r cwestiwn hwn.

### Disgyblion o Ysgol Uwchradd C (25 o ymatebion)

- Dylai 24 (96%)
- Efallai 1 (4%)
- Na 0

### Disgyblion o Ysgol Gynradd A (60 o ymatebion)

- Dylai 48 (80%)
- Efallai 0
- Na 12 (20%)

# 5. Y prif bethau da (C1)

## Beth yw'r prif bethau da i blant am gael mynd ar ymweliad addysg awyr agored dros nos?

Y ddau brif beth da a nodwyd gan ymatebwyr i'r arolwg am gael addysg awyr agored dros nos oedd **creu perthynas glos â ffrindiau** a **chael hwyl**, gydag ychydig llai na thraean o'r ymatebwyr yn dweud hyn.

Y pethau da eraill a nodwyd oedd y cyfle i **fod oddi cartref ac i ffwrdd o'u rhieni, dysgu sgiliau newydd, dysgu am yr amgylchedd a natur** a **bod yn yr awyr agored**.

Roedd y **rhinweddau personol** y dywedodd yr ymatebwyr y gellid eu datblygu drwy gymryd rhan mewn addysg awyr agored dros nos yn cynnwys **annibyniaeth**, **gwaith tîm**, **bod yn barod ar gyfer bywyd** a mwy o **hyder**.

Dywedodd yr ymatebwyr i'r arolwg hefyd fod addysg awyr agored dros nos yn helpu i **fynd i'r afael ag ofnau a phryderon**, yn rhoi cyfleoedd i gael **profiadau newydd a mynd i leoedd newydd**, ac yn cynnig **profiad dysgu gwahanol** a **seibiant sydd i'w groesawu o addysg ffurfiol**.

Cyfeiriwyd at fanteision o ran **iechyd corfforol a meddyliol** a **datblygiad personol cyffredinol** hefyd.

Isod ceir tabl a chwmwl geiriau yn dangos y pethau da a nodwyd gan o leiaf ddau ymatebwr. (Er gwybodaeth, categorïau sydd wedi'u llunio yn sgil dadansoddi'r ymatebion yw'r termau hyn ac nid o reidrwydd yr union eiriau a ddefnyddiwyd gan ymatebwyr).

Yn y tabl, mae'r rhifau mewn cromfachau yn dynodi nifer yr ymatebwyr a nododd bethau da a roddwyd wedyn yn y categorïau hyn. Mae maint y geiriau yn y cwmwl geiriau yn cynrychioli pa mor aml y cyfeiriwyd at y pethau a neilltuwyd i'r categorïau hyn.

**Beth yw'r prif bethau da i blant am gael mynd ar ymweliad addysg awyr agored dros nos? (176 o ymatebion i’r arolwg)**

| | |
|---|---|
| Creu perthynas glos â ffrindiau | 50 |
| Cael hwyl | 46 |
| Annibyniaeth | 27 |
| Profiad o fod oddi cartref/i ffwrdd o’u rhieni | 19 |
| Dysgu sgiliau newydd | 19 |
| Dysgu am yr amgylchedd a natur | 18 |
| Bod yn yr awyr iach/ anturio yn yr awyr agored | 18 |
| Gwaith tîm | 14 |
| Sgiliau bywyd a pharatoi | 13 |
| Goresgyn ofnau a phryderon | 12 |
| Profiadau a lleoedd newydd | 21 |
| Ffordd wahanol o ddysgu a seibiant o'r ysgol | 19 |
| Hyder | 9 |
| Antur a gweithgareddau | 9 |
| Profiad na fyddent o bosibl yn ei gael fel arall | 8 |
| Iechyd corfforol | 7 |
| Iechyd meddwl | 7 |
| Datblygiad personol cyfannol | 7 |
| Cyfrifoldeb | 6 |
| Dewrder | 5 |
| Cymryd risgiau o dan reolaeth | 4 |
| Manteision addysgol | 4 |
| Sgiliau cymdeithasol | 4 |
| Creu atgofion | 4 |
| Gwytnwch | 3 |
| Amser i ffwrdd o ddyfeisiau electronig | 3 |
| Sgiliau goroesi | 3 |
| Cyfleoedd na fyddent yn ymwybodol ohonynt fel arall | 2 |
| Dysgu sut i wersylla | 2 |

Gwytnwch

Annibyniaeth

Sgiliau bywyd a pharatoi

Amser i ffwrdd o ddyfeisiau electronig

Antur a gweithgareddau

Hyder

Gwaith tîm

Iechyd corfforol

Profiadau a lleoedd newydd

Goresgyn ofnau a phryderon

Cyfrifoldeb

Cael hwyl

Sgiliau cymdeithasol

Dewrder

Creu perthynas glos â ffrindiau

Creu atgofion

Datblygiad personol cyfannol

Dysgu sut i wersylla

Bod yn yr awyr iach/ anturio yn yr awyr agored

Dysgu sgiliau newydd

Iechyd meddwl

Sgiliau goroesi

Cyfleoedd na fyddent yn ymwybodol ohonynt fel arall

Profiad na fyddent o bosibl yn ei gael fel arall

Profiad o fod oddi cartref/i ffwrdd o'u rhieni

Ffordd wahanol o ddysgu a seibiant o'r ysgol

Cymryd risgiau o dan reolaeth

Manteision addysgol

Dysgu am yr amgylchedd a natur

## Cyfarfodydd â grwpiau o ddisgyblion

Yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd gan dîm Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Senedd â grwpiau ysgol a ddaeth ar ymweliad â'r Senedd a drefnwyd eisoes, nododd y disgyblion y pethau da a ganlyn am gael addysg awyr agored dros nos.

### Disgyblion o Ysgol Uwchradd A

- Mae’n dda ar gyfer eich iechyd meddwl – clirio’r meddwl
- Cysylltu â phobl eraill (cyfoedion), a chreu perthynas glos â'ch ffrindiau / gwneud ffrindiau newydd
- Cysylltu â natur
- Rhoi cyfle cyfartal i bob plentyn – nid yw rhai pobl ifanc yn gallu ei fforddio ac felly mae'n rhoi cyfle iddyn nhw
- Cyfle i gael seibiant o'r ysgol
- Dysgu sgiliau bywyd newydd – dysgu pethau nad ydych chi'n gwybod sut i'w gwneud
- Dysgu pethau na fyddech chi fel arfer yn eu dysgu yn yr ysgol fel saethyddiaeth, mynydda, twrio am fwyd ac ati
- Cael blas ar ddiddordebau a hobïau newydd
- Rhoi cyfleoedd i bobl ifanc na fyddent o bosibl yn eu cael fel arall tra byddant yn ifanc
- Rhoi seibiant i bobl ifanc o straen posibl a phwysau ychwanegol bywyd ysgol
- Dysgu am waith tîm drwy dwrnameintiau grŵp ar dripiau dros nos neu sgiliau gwersylla
- Rhoi cyfle i chi ddatblygu a dod o hyd i hobïau/diddordebau (dringo, arforgampau a dangos i’r athrawon eu bod yn anghywir)

### Disgyblion o Ysgol Uwchradd B

- Mwy o gyfleoedd i fod allan yn yr awyr agored a dysgu gweithgareddau newydd
- Helpu i ddysgu am fywyd gwyllt

- Helpu i fod yn egnïol
- Gwella sgiliau – gan gynnwys sgiliau bywyd sylfaenol fel nofio
- Gall eich helpu i oresgyn ofnau fel uchder neu ddŵr dwfn
- Mae’n dda ar gyfer iechyd corfforol Mae teithiau awyr agored yn fwy egnïol na gwersi addysg gorfforol yn unig. Llawer mwy o gyfleoedd i fod yn egnïol
- Mae bod yn yr awyr agored yn rhyddhau straen
- Mae’n eich helpu i fynd allan o'r tŷ

**Disgyblion o Ysgol Uwchradd C**

- Gwella ffitrwydd
- Dysgu sgiliau newydd
- Cyfle i bobl sydd ddim wedi bod o’r blaen
- Cyfarfod pobl newydd
- Gwella iechyd meddwl
- Gwella sgiliau siarad
- Awyr iach
- Cadw'n heini
- Trio pethau newydd
- Gweithgareddau gwahanol
- Gwneud ffrindiau newydd
- Mae’n hwyl
- Am ddim
- Rhoi cyfle i bawb
- Dysgu annibyniaeth
- Cael seibiant o’r ysgol

- Gwella Cymraeg

**Disgyblion o Ysgol Gynradd A**

- Mae'n dda bod yn egnïol
- Gwneud iddynt ddeall ein hamgylchedd awyr agored a'u dysgu i wneud gweithgareddau awyr agored
- Awyr iach, bod yn egnïol, iechyd corfforol a meddyliol (x2) ffordd dda o gael fitamin D (x2)
- Byddwn yn ymarfer corff ac yn cael hwyl gydag eraill

**Grŵp o ddisgyblion o ysgolion cynradd yng Ngheredigion**

- Mae’n dda ar gyfer eich iechyd corfforol
- Mae’n dda ar gyfer eich iechyd meddwl
- Treulio amser gyda ffrindiau y tu allan i'r ystafell ddosbarth
- Gallu herio eich hun

# 6. Y prif rwystrau ar hyn o bryd (C2)

## Beth sy'n rhwystro plant rhag cymryd rhan mewn ymweliad addysg awyr agored dros nos?

Gwahoddwyd yr ymatebwyr i ddewis cynifer o’r atebion ag a oedd yn berthnasol o restr o wyth dewis. Un o'r dewisiadau hyn oedd 'arall' a gofynnwyd iddynt roi manylion yn eu geiriau eu hunain.


**Yr holl ymatebion (176 o ymatebion gyda'r rhain yn dewis cyfanswm o 596 o’r opsiynau a restrwyd ar gyfer rhwystrau posibl)**

- Cost 149 (nodwyd gan 85% o'r ymatebwyr a ddewisodd opsiwn)
- Iechyd neu anabledd 62 (35%)
- Rhieni'n poeni 103 (59%)
- Plant yn teimlo'n bryderus 124 (70%)
- Bod yn ofalwyr ifanc 21 (12%)
- Rhwystrau iaith 30 (17%)
- Ffrindiau ddim yn mynd 87 (49%)
- Arall 20 (11%) (gweler y manylion isod)

[Mae’r rhif mewn cromfachau yn dynodi nifer yr ymatebwyr a ddewisodd yr opsiwn o'r rhestr a ddarparwyd. Mae'r rhif ar gyfer 'Arall' yn dynodi nifer yr ymatebwyr a ddarparodd rwystr 'Arall', nid cyfanswm y rhwystrau eraill a nodwyd.]

Cyflwynir y wybodaeth hon hefyd mewn siart far isod.

**Cyfran yr ymatebwyr i'r arolwg a nododd fod y rhain yn rhwystr i blant a phobl ifanc rhag cael profiadau addysg awyr agored dros nos**



### Rhwystrau eraill a nodwyd

Mae'r rhwystrau eraill a nodwyd, yn ychwanegol at y rhestr o opsiynau a ddarparwyd yn yr arolwg, wedi'u grwpio fel themâu ac wedi'u haseinio i'r categorïau isod. Mae'r rhain wedi'u trefnu ar sail amledd (mae'r rhifau mewn cromfachau yn cyfeirio at nifer yr ymatebwyr a nododd y rhwystr, os oes mwy nag un).

- Teimlo'n ofnus (3)
- Cael trafferth cysgu a phryder am gysgu (3)
- Hiraeth (3)
- Risg o gael dolur (2)
- Ddim yn gwybod sut i fanteisio arno
- Diffyg argaeledd
- Rheolau llym am y terfynau
- Ddim eisiau cymryd rhan (dylai hyn barhau i fod yn ddewis)
- Ymrwymiadau eraill, e.e. bod ar wyliau
- Dewisiadau bwyd sy'n annigonol
- Nid yw dysgu drwy brofiad yn cael ei flaenoriaethu digon
- [Ni roddwyd manylion]

## Cyfarfodydd â grwpiau o ddisgyblion

Yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd gan dîm Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Senedd â grwpiau ysgol a ddaeth ar ymweliad â'r Senedd a drefnwyd eisoes, nododd y disgyblion y rhwystrau a ganlyn sy'n atal pobl ifanc rhag cael addysg awyr agored dros nos ar hyn o bryd.

### Disgyblion o Ysgol Uwchradd A

- Cost – mae angen llawer o gyllid
- Bod mewn amgylchedd newydd – methu setlo na chysgu
- Peidio â gweld eich rhieni neu'ch anifeiliaid anwes

- Bod i ffwrdd am amser hir
- Plentyn yn mynd ar goll
- Salwch
- Bod yn dlawd
- Bod ag anabledd
- Ofn
- Roeddwn i’n gwerthfawrogi bod y Senedd yn gwneud ei gorau i ddarparu’r llety gorau, ond rwy’n credu ei bod hi’n rhesymol hefyd sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i fynd ar drip ysgol, hyd yn oed os ydynt yn wynebu cyfyngiadau ariannol.
- Ymrwymiad i glwb y tu allan i'r ysgol
- Rhieni llym
- Anableddau corfforol
- Diffyg cyfleoedd
- Iechyd a diogelwch

**Disgyblion o Ysgol Uwchradd B**

- Mae gan fyfyrwyr bryderon am fethu â fforddio'r trip
- Pryderon am aros dros nos
- Gallai fod ofn ar blant o fod y tu allan yn gwneud pethau newydd heb eu teuluoedd
- Pryder am fod wedi’u gwahanu oddi wrth eu teulu
- Poeni na allant fforddio rhai pethau
- Poeni y gallent anafu eu hunain
- Ddim eisiau bod i ffwrdd o’r hyn sy’n gyffredin – cartref/rhieni ac ati
- Teimlo'n bryderus am beidio â gallu defnyddio eu dyfeisiau electronig

**Disgyblion o Ysgol Uwchradd C**

- Gallu methu gartref
- Gallu brifo
- Pres
- Ddim yn gallu teithio yna
- Ddim eisiau mynd
- Bwlio
- Yn gaeth i’w ffonau
- Pryder
- Salwch
- Dal angen dysgu – methu allan ar ysgol
- Dim offer i fynd
- Dim arian i olchi dillad pan yn cyrraedd adref

**Disgyblion o Ysgol Gynradd A**

- Mae’n costio arian (x7)
- Bod i ffwrdd o gartref / hiraeth (x6)
- Cyflyrau meddygol (x2) a allai waethygu oddi cartref lle nad oes gan y plentyn unrhyw ffordd o gysylltu â’i rieni
- Gallai’r tywydd fod yn wael
- Efallai na fydd ffrindiau’n dod
- Bwyd

**Grŵp o ddisgyblion o ysgolion cynradd yng Ngheredigion**

- Efallai y bydd ofn arnoch, yn enwedig os bydd yn rhaid i chi abseilio
- Gallai fod gennych ddyletswyddau gofalu gartref (gofalwyr ifanc)
- Gallai fod gennych nam neu anabledd corfforol

- Mae rhai anableddau nad ydynt yn weladwy
- Costau cludiant ar gyfer ysgolion
- Cost dillad e.e. dillad gwrth-ddŵr/esgidiau cerdded ac ati

# 7. Yr oedran gorau i fynd (C5)

## Beth yw'r oedran neu'r flwyddyn orau i fynd?

Nid oedd opsiynau penodol i ymatebwyr ddewis ohonynt ar gyfer y cwestiwn hwn yn yr arolwg. Rhoddodd yr ymatebwyr atebion yn eu geiriau eu hunain felly.


Roedd nifer (32%) o ymatebion amhendant oherwydd bod ymatebwyr wedi nodi rhif, er enghraifft '8' neu '9', a heb nodi a oeddent yn golygu Blwyddyn 8 neu Flwyddyn 9, neu wyth neu naw oed.

Roedd llawer o'r ymatebion yn nodi ystod o grwpiau blwyddyn neu oedrannau yn hytrach na grŵp blwyddyn neu oedran penodol. Ar sail yr ymatebion a’r ystod o ddiwrnodau a nodwyd, mae’r ymatebion wedi cael eu grwpio a’u rhoi mewn categorïau fel a ganlyn.

**Pob un o’r 176 o ymatebion i'r arolwg**

- Dechrau ym Mlwyddyn 3 neu'n gynt 14 (8%)
- Blwyddyn 4 i Flwyddyn 6 12 (7%)
- Blwyddyn 5 i Flwyddyn 6 56 (32%)
- Blwyddyn 5 i Flwyddyn 8 16 (9%)
- Yn hwyrach na Blwyddyn 8 9 (5%)
- Unrhyw oedran 11 (6%)
- Mae'n dibynnu 2 (1%)
- Amhendant 56 (32%)


**Beth yw'r oedran neu'r flwyddyn orau i fynd? (Pob ymateb i'r arolwg)**



**Gan ddiystyru ymatebion amhendant i'r arolwg (gan adael 120 o ymatebion)**

- Dechrau ym Mlwyddyn 3 neu'n gynt 14 (12%)
- Blwyddyn 4 i Flwyddyn 6 12 (10%)
- Blwyddyn 5 i Flwyddyn 6 56 (47%)
- Blwyddyn 5 i Flwyddyn 8 16 (13%)
- Yn hwyrach na Blwyddyn 8 9 (8%)
- Unrhyw oedran 11 (9%)
- Mae'n dibynnu 2 (2%)

**Beth yw'r oedran neu'r flwyddyn orau i fynd? (Gan ddiystyru ymatebion amhendant i'r arolwg)**



## Cyfarfodydd â grwpiau o ddisgyblion

Yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd gan dîm Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Senedd â grwpiau ysgol a ddaeth ar ymweliad â'r Senedd a drefnwyd eisoes, dywedodd y disgyblion yr hyn a ganlyn am yr oedran gorau i fynd.

### Disgyblion o Ysgol Uwchradd A

Yn gyffredinol, dywedodd y disgyblion mai Blwyddyn 8 neu Flwyddyn 9 fyddai'r oedran gorau. Teimlwyd bod Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 yn well na Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 oherwydd pwysau'r cwrs TGAU yn ystod y cyfnod hwnnw.

### Disgyblion o Ysgol Uwchradd B

Roedd y disgyblion yn teimlo mai oedran ysgol uwchradd yw'r oedran gorau i fynd, yn rhannol oherwydd bod natur y gweithgareddau a'r offer a ddefnyddir yn fwy addas ar gyfer plant hŷn.

### Disgyblion o Ysgol Uwchradd C

Rhoddodd tua hanner y disgyblion ystod oedran gyffredinol o wyth neu naw oed a hŷn, tra bod yr hanner arall yn dweud tua 12 oed a hŷn.

### Disgyblion o Ysgol Gynradd A

Roedd yr ymatebion yn amrywio o fynd gydag oedolyn cyfrifol (h.y. gyda rhiant, athro neu oedolyn sy'n goruchwylio), ac os felly yr awgrym oedd y dylai ymweliadau ddechrau rhwng saith a naw oed, ac o ran mynd yn annibynnol heb oedolyn i'w goruchwylio, gwnaethant ddweud tua 15 i 18 oed.

### Grwpiau o ddisgyblion o ysgolion cynradd yng Ngheredigion

Roedd amrywiaeth o safbwyntiau, ac awgrymwyd mai'r oedran mwyaf addas oedd chwech oed a hŷn, Blwyddyn 6 ac uwch, naw-16 oed a rhwng 12 ac 20 oed.

## Crynodeb o'r ymatebion ar gyfer yr ystod oedran mwyaf addas

Ar ôl diystyru'r ymatebion amhendant, **nododd ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr mai Blwyddyn 5 neu Flwyddyn 6 fyddai'r oedran gorau** i gymryd rhan mewn addysg awyr agored dros nos. **Roedd 70% o'r ymatebion o fewn ystod gyffredinol o oedrannau rhwng Blwyddyn 4 a Blwyddyn 8.** Fodd bynnag, **nid oedd consensws mawr ar gyfer un grŵp blwyddyn neu oedran**.

Roedd tri o'r grwpiau ysgol yn ddisgyblion uwchradd ac efallai bod y gwahanol atebion a roddodd y grwpiau hynny i'r cwestiwn hwn yn adlewyrchu'r ffaith eu bod yn hŷn na'r rhai a ymatebodd i'r arolwg a oedd o dan 13 oed ar y cyfan.

**Roedd y tri grŵp ysgol uwchradd yn tueddu i ddweud mai oedran ysgol uwchradd (Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9)** fyddai'r oedran gorau i gymryd rhan mewn addysg dros nos, tra bod atebion y ddau grŵp ysgol gynradd yn agosach at ganlyniadau'r arolwg (tua diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd). (Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr i'r arolwg yn 13 oed ac iau.)

# 8. Yr hyd gorau ar gyfer taith (C6)

## Am ba hyd ddylai'r daith fod?

Nid oedd opsiynau penodol i ymatebwyr ddewis ohonynt ar gyfer y cwestiwn hwn yn yr arolwg. Rhoddodd yr ymatebwyr atebion yn eu geiriau eu hunain felly.

Cafwyd rhai ymatebion amhendant (6%) ond dim cymaint â’r ymatebion i’r cwestiwn ynghylch yr oedran gorau i fynd ar daith o’r fath.

Mewn llawer o'r ymatebion, rhoddwyd ystod ar gyfer y nifer orau o ddiwrnodau neu nosweithiau. Roedd y rhain yn amrywio o ran pa mor benodol oeddent, gyda rhai ymatebwyr yn dewis nifer benodol o ddiwrnodau neu nosweithiau ac eraill yn rhoi cyfnodau cymharol eang o amser. Er enghraifft, roedd pedair noson/wythnos ysgol yn ymateb cyffredin, yn ogystal â chyfnodau byrrach rhwng un a thair noson, tra bod rhai ymatebion rhywle rhwng y ddau, gan nodi er enghraifft 'tair neu bedair noson'.


Ar sail yr ymatebion a’r ystod o ddiwrnodau a nodwyd, mae’r ymatebion wedi cael eu grwpio a’u rhoi mewn categorïau fel a ganlyn.

**Pob un o’r 176 o ymatebion i'r arolwg**

- Un diwrnod / llai nag un noson 8 (5%)
- 1-3 noson / hyd at 4 diwrnod 65 (37%)
- 1-4 noson 28 (16%)
- 4 noson / 1 wythnos ysgol 50 (28%)
- Yn hwy nag wythnos ysgol 11 (6%)
- Mae'n dibynnu 6 (3%)
- Dim ateb / amhendant 8 (5%)

O ran yr ymatebwyr a ddywedodd ei bod yn dibynnu, dywedodd y rhan fwyaf ohonynt mai oedran yw'r prif ffactor ac y dylai ymweliadau gael eu hymestyn wrth i’r cyfranogwyr dyfu’n hŷn.

**Am ba hyd ddylai'r daith fod? (Pob ymateb i'r arolwg)**



## Cyfarfodydd a gynhaliwyd â grwpiau o ddisgyblion

Yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd gan dîm Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Senedd â grwpiau ysgol a ddaeth ar ymweliad â'r Senedd a drefnwyd eisoes, dywedodd y disgyblion yr hyn a ganlyn am ba hyd y dylai'r daith fod.

### Disgyblion o Ysgol Uwchradd A

Roedd y disgyblion yn teimlo mai un wythnos ysgol oedd yr hyd gorau ar gyfer taith o'r fath.

### Disgyblion o Ysgol Uwchradd B

Dywedodd y disgyblion mai dwy i dair noson fyddai'r hyd gorau ond gwnaethant hefyd ddweud po hynaf ydych chi, yr hiraf y dylai'r daith fod.

### Disgyblion o Ysgol Uwchradd C

Roedd amrywiaeth o safbwyntiau gyda'r atebion yn amrywio o hanner diwrnod i bum diwrnod.

### Disgyblion o Ysgol Gynradd A

Roedd y disgyblion yn teimlo y dylai taith o'r fath bara am wythnos neu fwy.

### Grwpiau o ddisgyblion o ysgolion cynradd yng Ngheredigion

Roedd amrywiaeth o safbwyntiau, ac awgrymwyd rhwng dwy noson a phedwar diwrnod.

## Crynodeb o'r ymatebion ar gyfer yr hyd gorau ar gyfer taith

Nododd 37% o'r ymatebwyr mai hyd at bedwar diwrnod fyddai'r hyd gorau, tra dywedodd 28% y dylai'r profiad bara am wythnos. Dywedodd 6% arall y dylai teithiau fod yn hirach nag un wythnos ysgol, a dywedodd 5% y byddai'n well eu cadw fel teithiau dydd.

**Felly, dywedodd 42% y dylai profiadau bara llai nag wythnos ysgol,** tra **dywedodd 34% y dylent bara wythnos ysgol neu fwy**. Rhoddodd 16% atebion a oedd rhywle rhwng y ddau gyfnod hyn o amser. Dywedodd y gweddill ei bod yn dibynnu neu rhoddwyd atebion a oedd yn amhendant.

Felly, roedd gan y plant a'r bobl ifanc a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn **safbwyntiau gweddol amrywiol** ynghylch **a ddylai profiadau addysg awyr agored dros nos bara wythnos o hyd (neu fwy), neu lai nag wythnos ysgol**.

# 9. Y grwpiau penodol o blant a fyddai'n elwa (C7)

## Pa grwpiau o blant fyddai'n elwa fwyaf o gymryd rhan mewn ymweliad addysg awyr agored dros nos, a pham?

Atebodd 159 o'r 176 a ymatebodd i’r arolwg y cwestiwn hwn. Roedd 9 o'r ymatebion hyn yn amhendant, gan adael 150 o ymatebion. Roedd 22 o'r ymatebion hyn yn nodi grwpiau o blant a fyddai'n elwa'n benodol drwy gyfeirio at eu hoedran neu eu grŵp blwyddyn. Roedd y mater hwn wedi cael ei drafod eisoes yng nghwestiwn 5. Nododd yr ymatebwyr hyn Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn bennaf, ac oedran ysgol gynradd yn fwy cyffredinol.

Felly, roedd **128 o ymatebion i’r arolwg** lle nodwyd grwpiau o blant a fyddai’n elwa'n benodol (neu lle nodwyd y byddai pob plentyn yn gyffredinol yn elwa).

Atebodd **dros hanner (57%)** o’r ymatebwyr y byddai **pob plentyn** yn elwa o addysg awyr agored dros nos, yn hytrach na nodi unrhyw grwpiau yn benodol.

Y grwpiau mwyaf cyffredin ond un oedd **plant o aelwydydd incwm isel**, na fyddent o bosibl yn cael cyfle fel arall (15%), a **phlant ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY)** (13%). Mae’r grwpiau eraill o blant a nodwyd yn cynnwys y rhai nad ydynt yn cael llawer o gyfle i fynd y tu allan (6%), plant sydd am gymdeithasu (6%), plant sydd ag anawsterau iechyd emosiynol ac iechyd meddwl, a phlant sy’n gyfrifol ac yn dangos diddordeb (5%).

Mae'r rhestr fwled a'r siart bar isod yn dangos y grwpiau a nodwyd gan o leiaf ddau ymatebwr i’r arolwg. (Er gwybodaeth, categorïau sydd wedi'u llunio yn sgil dadansoddi'r ymatebion yw’r termau hyn ac nid o reidrwydd yr union eiriau a ddefnyddiwyd gan ymatebwyr.)


Mae'r rhifau’n dynodi nifer yr ymatebwyr a nododd y grwpiau hyn. Y canrannau yw cyfran yr ymatebwyr a nododd y grwpiau hyn, nid cyfran yr holl grwpiau a nodwyd.

**128 o ymatebion i’r arolwg**

- Pob plentyn 73 (57%)
- Plant o aelwydydd incwm isel 19 (15%)
- Plant ag anableddau/ADY 17 (13%)

- Plant nad ydynt yn cael llawer o gyfle i fynd y tu allan 8 (6%)
- Plant sydd am gymdeithasu 8 (6%)
- Plant sydd ag anawsterau iechyd emosiynol ac iechyd meddwl 6 (5%)
- Plant cyfrifol sy’n chwarae rhan weithredol 6 (5%)
- Plant sy'n byw mewn ardaloedd trefol 3 (2%)
- Gofalwyr ifanc 3 (2%)

**Pa grwpiau o blant fyddai'n elwa fwyaf o gymryd rhan mewn ymweliad addysg awyr agored dros nos, a pham? (128 o ymatebion)**



# 10. Sicrhau bod plant yn cael yr amser gorau posibl (C3)

## Sut gall pobl sicrhau bod plant yn cael yr amser gorau posibl ar ymweliadau addysg awyr agored dros nos?

Atebodd 165 o'r 176 a ymatebodd i'r arolwg y cwestiwn hwn. Nododd rhai ymatebwyr fwy nag un ffactor.

Y ffactor a nodwyd amlaf oedd sicrhau bod plant yn cael hwyl, yn mwynhau eu hunain ac yn gallu cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau. Cyfeiriodd chwarter yr ymatebwyr at hyn.

Nododd tua 12% y cyfle i gael rhywfaint o ryddid, i ffwrdd o'r rheolau a 'llymder' yr ysgol ac athrawon, a chyfeiriodd 7% at bwysigrwydd treulio amser gyda ffrindiau hefyd. Fodd bynnag, tynnodd nifer fach (3%) sylw at bwysigrwydd cael rheolau addas. Roedd diogelwch yn bwysig i lawer, gyda 12% yn tynnu sylw at bwysigrwydd cadw'n ddiogel tra byddant i ffwrdd.

Ar ôl cael hwyl, yr ail ffactor a nodwyd amlaf (16%) oedd y dylai'r oedolion sy'n darparu neu'n goruchwylio'r addysg awyr agored dros nos roi sylw i emosiynau, pryderon ac anghenion ehangach plant.

Roedd 11% yn cefnogi bod yn gynhwysol, yn gefnogol a sicrhau bod neb yn cael eu 'gadael allan' yn ystod yr ymweliad, tra bod 9% yn dweud ei bod yn bwysig darparu gwybodaeth baratoadol fel bod plant yn gwybod yr hyn i'w ddisgwyl. Dywedodd 5% y dylent gael rhywfaint o ddewis o ran yr hyn y byddent yn ei wneud ac na ddylent deimlo o dan bwysau i wneud unrhyw beth nad oeddent yn teimlo'n gyffyrddus i'w wneud.

Soniodd 14% am bwysigrwydd safon y ddarpariaeth ei hun, gan gynnwys cael staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda, i sicrhau bod plant yn cael y gorau o'r profiad. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr fod safon ac apêl y bwyd sydd ar gael (5%) a chael digon o gwsg hefyd yn ffactorau allweddol o ran sicrhau bod plant yn cael yr amser gorau posibl.


Mae'r rhestr fwled a'r siart far isod yn dangos y ffactorau a nodwyd gan o leiaf ddau ymatebwr i'r arolwg. (Er gwybodaeth, categorïau sydd wedi'u llunio yn sgil dadansoddi'r ymatebion yw'r termau hyn ac nid o reidrwydd yr union eiriau a ddefnyddiwyd gan ymatebwyr.)

Mae'r niferoedd yn dynodi nifer yr ymatebwyr a nododd ffactorau a ddyrannwyd wedyn i'r categorïau hyn. Y canrannau yw cyfran yr ymatebwyr a nododd y ffactor hwn, nid cyfran yr holl ffactorau a nodwyd.

**Pob un o'r 165 o ymatebion i'r arolwg**

- Sicrhau eu bod yn cael hwyl a bod gweithgareddau da 40 (24%)
- Rhoi sylw i'w hemosiynau a'u pryderon 27 (16%)
- Darpariaeth drefnus o safon dda 23 (14%)
- Rhyddid a seibiant o 'lymder' yr ysgol 20 (12%)
- Cadw'n ddiogel 19 (12%)
- Bod yn gynhwysol ac yn gefnogol i bawb 18 (11%)
- Paratoi'n ddigonol ac esbonio beth i'w ddisgwyl 15 (9%)
- Caniatáu iddynt dreulio amser gyda ffrindiau 11 (7%)
- Bwyd blasus 9 (5%)
- Rhoi dewis iddynt o ran yr hyn y byddant yn ei wneud ac osgoi eu rhoi o dan bwysau 8 (5%)
- Sicrhau eu bod yn cael digon o gwsg 8 (5%)
- Darparu modd i gysylltu â rhieni 5 (3%)
- Sicrhau bod rheolau addas ar waith 5 (3%)
- Dileu rhwystrau o ran cost 4 (2%)
- Gwneud ymweliadau yn orfodol 3 (2%)

**Sut gall pobl sicrhau bod plant yn cael yr amser gorau posibl ar ymweliadau addysg awyr agored dros nos? (165 o ymatebion)**



# 11. Sylwadau ychwanegol

Gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd i'r arolwg fel rhan o'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc nodi unrhyw syniadau eraill a oedd ganddynt ar gyfer pethau i'w cynnwys yn y Bil ac i roi unrhyw sylwadau ychwanegol eraill.

Gwnaeth **79 o'r 176 o ymatebwyr** sylwadau ychwanegol.

## O blaid ac yn erbyn

**Roedd 17 o'r sylwadau ychwanegol hyn yn glir o blaid** y cynnig, gan ddefnyddio'r cyfle yn bennaf i ategu eu cefnogaeth yn hytrach na gwneud pwyntiau newydd. Dywedodd sawl un y dylai fod mwy nag un daith am ddim, tra bod un yn dweud bod enwau disgyblion wedi cael eu tynnu o het yn ei ysgol ei hun i benderfynu pwy a gâi fynd ar ymweliad a'i fod yn siomedig na chafodd ei enw ei ddewis a'i fod wedi colli allan ar fynd.

**Roedd tri o'r sylwadau ychwanegol yn gwrthwynebu'r cynnig.** Roedd dau o'r rhain o'r farn na ddylid gorfodi plant i gymryd rhan, gydag un ymatebwr yn nodi profiad negyddol yr oedd wedi'i gael, tra bod un arall yn dweud bod blaenoriaethau mwy dybryd yr oedd angen mynd i'r afael â hwy.

## Materion a nodwyd

### Cysuron ac amodau tra byddant i ffwrdd

Soniodd tua 17 o'r ymatebwyr am bwysigrwydd bwyd, byrbrydau, amser rhydd, mynediad i ffonau a dyfeisiau electronig eraill, a chael llety a chyfleusterau cyfforddus pan fyddant yn cymryd rhan mewn addysg awyr agored dros nos.

### Goblygiadau ariannol a fforddiadwyedd

Roedd tua 14 o'r ymatebion yn cyfeirio at gostau a fforddiadwyedd. Roedd tua dwy ran o dair o'r rhain yn dweud y dylai teithiau fod yn rhad ac am ddim i sicrhau y gallai plant o gartrefi tlotach gymryd rhan, tra bod sawl un yn argymell cael prawf modd a bod y rhieni a allai fforddio talu yn cyfrannu tuag at y gost.

Soniodd un ymatebwr am bwysigrwydd help gyda chostau trafnidiaeth, gan ddweud y byddai'n ffactor bwysig wrth benderfynu a yw'n bosibl mynd ar ymweliad dros nos.

### Cwmpas ymweliadau cymwys

Dywedodd tua 10 o'r ymatebwyr y dylid ehangu cwmpas yr ymweliadau gwarantedig a ariennir, a’r hyn a nodwyd amlaf oedd y dylent gynnwys teithiau tramor ac i ddinasoedd.

### Cynwysoldeb

Roedd tua phum ymateb yn galw am sicrhau y cynhwysir ac y darperir ar gyfer pawb ar ymweliadau addysg awyr agored dros nos, tra bod pump arall yn sôn am ddiwallu anghenion plant anabl yn benodol.

### Hawl plant i adael

Dywedodd dau o’r ymatebwyr y dylai plant gael yr hawl i fynd adref yn gynnar o ymweliad addysg awyr agored dros nos os ydynt yn dymuno gwneud hynny, hyd yn oed os yw'r athrawon/hyfforddwyr yn dweud na. Fel y soniwyd eisoes, pwysleisiodd dau ymatebwr arall a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig na ddylid gorfodi plant i fynd yn y lle cyntaf.

### Y ddarpariaeth ei hun

Gwnaed sylwadau mewn nifer o ymatebion am natur y ddarpariaeth ei hun a'r hyn y dylai ganolbwyntio arno, megis dealltwriaeth o'r amgylchedd a'i berthnasedd i fywyd a gweithredoedd dynol, yn ogystal â chysylltiadau â diwylliant Cymru. Roedd yr ymatebion hyn yn tueddu i fod gan ymatebwyr a oedd yn oedolion.

Gwnaed sylwadau mewn nifer o ymatebion eraill am y cysylltiadau rhwng addysg awyr agored dros nos ac addysg gyffredinol y plant. Unwaith eto, roedd y rhain yn bennaf gan ymatebwyr a oedd yn oedolion.

## Cyfarfodydd â grwpiau o ddisgyblion

Yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd gan dîm Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Senedd â grwpiau ysgol a ddaeth ar ymweliad â'r Senedd a drefnwyd eisoes, cafodd y ddau gwestiwn a ganlyn eu gofyn a’u trafod. Mae crynodeb isod.

### A fyddai unrhyw beth yn eich poeni am fynychu taith addysg awyr agored dros nos?

### Disgyblion o Ysgol Uwchradd A

- Poeni am fod oddi cartref
- Anodd peidio â gallu defnyddio ffôn i gysylltu â'r teulu

- Mae’n gwneud i chi deimlo'n sâl weithiau pan fyddwch yn aros i ffwrdd dros nos
- Poeni nad oes gan y lle ddigon o gyfleusterau fel pwll nofio
- Cael eich gwahanu oddi wrth eich ffrindiau a bod gyda phobl nad ydych yn cyd-dynnu â nhw
- Gallai achosi straen i ddisgyblion
- Efallai na fydd darpariaeth ar gyfer alergeddau
- Damweiniau
- Efallai y bydd rhai pobl ifanc yn cael pryder ymwahanu
- Pobl ifanc sy'n hiraethus

**Disgyblion o Ysgol Uwchradd B**

- Poeni am fod oddi cartref
- Anodd peidio â gallu defnyddio ffôn i gysylltu â'r teulu
- Mae’n gwneud i chi deimlo'n sâl weithiau pan fyddwch yn aros i ffwrdd dros nos

**Disgyblion o Ysgol Uwchradd C**

- Colli gartref/teulu
- Bod ar ben eich hun a ddim efo ffrindiau yna
- Pobl yn cael eu bwlio a gwneud hwyl ar ben ei gilydd
- Mynd yn sâl yn y car/bws
- Pres
- Dadbacio a golchi pan yn cyrraedd adref
- Mynd ar goll

**Disgyblion o Ysgol Gynradd A**

- Hiraeth (x2)

- Arian
- Bod yn sâl wrth deithio
- Pryderon am fynd ar goll (x5) ac efallai na fyddant yn gallu mynd yn ôl
- Efallai y bydda i'n cael dolur
- Traffig
- Colli’r bws/trên
- Byddai, oherwydd byddai llai o fwyd ar gael
- Problemau gyda'ch ffrindiau
- Bod yn sâl a bod pobl yn eich bwlio neu gallai fod gennych chi salwch sy’n eich rhwystro rhag gwneud y gweithgareddau a ddarperir (x2), asthma
- Faint o oedolion sydd yno i'ch arwain
- Hinsawdd

**Ydych chi wedi bod ar daith awyr agored dros nos? Os felly, beth oedd yn arbennig o dda am hyn? A beth allai fod wedi bod yn well?**

**Disgyblion o Ysgol Uwchradd A**

- Ydw - dim ond yn yr ysgol gynradd. Gwnaethom ddysgu gweithgareddau hwyliog. Mae angen i'r bwyd fod yn dda a dylem ni dreulio mwy o amser i ffwrdd.
- Ydw – roedd yn dda achos bod gennym ni ryw fath o ryddid, a hefyd gallwch ddysgu sgiliau bywyd tra byddwch chi’n mwynhau eich hunain. Aeth fy ysgol gynradd am bedwar diwrnod.

**Disgyblion o Ysgol Uwchradd B**

- Ydw - aethom ar daith lle gwnaethom gerdded ceunentydd a gwnes i fwynhau dod i ‘nabod ffrindiau newydd.
- Nid oedd unrhyw beth nad oeddwn i’n ei hoffi. Gwnaethom ni gwrs rhwystrau – roedd yn wallgof! Roedd yna dipyn o gystadleuaeth ac roedd hi'n hwyl!

- Rydw i wedi bod ar un ac roedd yn dda cael ail ddiwrnod oherwydd aethom ni i gerdded ceunentydd a dringo i fyny rhaeadr a neidio i lawr, sy’n rhywbeth nad ydw i erioed wedi'i wneud o'r blaen.

- Es i Langrannog ac roeddwn i'n falch iawn ohonof fy hun am fynd ar y rhaffau uchel. Cefais ddewis fy arweinydd gweithgaredd ac er bod ofn uchder arna i, fe wnes i’r gweithgaredd ac roeddwn i'n falch iawn o fy hun.

- Gwnaethom daith gyda Call of the Wild a dim ond un diwrnod oedd hi. Gwnaethom bopeth mewn un diwrnod ac roedd hi’n ddiwrnod llawn iawn. Gwnaethom ychydig o weithgareddau ond dim byd arall. Byddwn wedi hoffi gwneud mwy gan ei fod yn dda wrth helpu i wella sgiliau cymdeithasol pobl oherwydd ei fod yn syth ar ôl Covid.

- Es i ffwrdd gyda’r Cybiau a dysgu saethyddiaeth ac roedd yn dda iawn. Roedd y rhai hŷn yn gyfrifol am y rhai iau tra ein bod ni’n aros dros nos ac roedd hynny’n ffordd dda iawn o ddysgu cyfrifoldeb.

**Disgyblion o Ysgol Uwchradd C**

- Naddo oherwydd roedd yn amser Covid 19 felly mae fy ysgol wedi methu allan. Bydd cyfle arall i fynd yn syniad da i’r bobl sydd heb gael mynd.

- Do wedi bod yn Glan Llyn - gweithgareddau hwylus hefo ffrindiau. Efallai fyddai gweithgareddau llai plentynnaidd yn gweithio yn dda.

- Do wedi bod yn Glan Llyn – pethau da oedd y staff, y llofftydd a’r gweithgareddau. Pethau i’w gwella – angen lle i chwarae pêl droed, doedd y pwll nofio ddim ar agor, cael gwared ar y ‘black nun’, aros yn hirach, dewis pwy ti mewn llofft hefo, y bwyd, angen ‘arcade’, dim angen bod yn rhan o’r Urdd, ‘water slides’ ac adloniant.

- Fyddwn ni yn hoffi mynd i Glan Llyn, Pentre Llyn ond yn anffodus oherwydd Covid 19 doedd ddim yn bosib mynd.

- Angen gwella y gwely yn Glan Llyn.

**Grwpiau o ddisgyblion o ysgolion cynradd yng Ngheredigion**

- Mynd i Langrannog yn fuan.

# Atodiad A: Cwestiynau’r arolwg a gynhaliwyd fel rhan o’r ymgynghoriad

1. Beth yw'r prif bethau da i blant am gael mynd ar ymweliad addysg awyr agored dros nos?

2. Beth sy'n rhwystro plant rhag cymryd rhan mewn ymweliad addysg awyr agored dros nos? (Ticiwch gymaint ohonynt ag yr hoffwch)

☐ Cost

☐ Iechyd neu anabledd

☐ Rhieni'n poeni

☐ Plant yn teimlo'n bryderus

☐ Bod yn ofalwyr ifanc

☐ Rhwystrau iaith

☐ Ffrindiau ddim yn mynd

☐ Rheswm arall (dwedwch beth) ...

3. Sut gall pobl sicrhau bod plant yn cael yr amser gorau posibl ar ymweliadau addysg awyr agored dros nos?

4. Ar raddfa o 1 i 10, pa mor bwysig yw hi i bob plentyn gael cyfle i wneud ymweliad addysg awyr agored dros nos am ddim rywbryd?

5. Beth yw'r oedran neu'r flwyddyn orau i fynd?

6. Am ba hyd ddylai'r daith fod?

7. Pa grwpiau o blant fyddai'n elwa fwyaf o gymryd rhan mewn ymweliad addysg awyr agored dros nos, a pham?

8. A ddylai fod yn gyfraith y gall plant fynd ar o leiaf un ymweliad addysg awyr agored dros nos?

☐ Dylai

☐ Efallai

☐ Na